# CYSYLLTIAD TYWI WYSG GREEN GEN

## Llyfryn ymgynghoriad cam dau Mawrth 2024

**Sicrhau dyfodol cadarnhaol o ran ynni i Gymru**



GREEN GEN CYMRU

greengencymru.com | www.greengentowyusk.com/cymraeg

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd | 03 |
| Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud | 04 |
| Amdano Green GEN Tywi Wysg | 05 |
| Ynni adnewyddadwy newydd yng Nghymru | 06 |
| Sut gwnaethom ni ddewis y llwybr a ffefrir | 08 |
| Trosolwg o'r broses gynllunio ac ymgynghori | 10 |
| Datblygu'r prosiect | 12 |
| Esbonio aliniad y llwybr drafft | 14 |
| Rhan 1 | 16 |
| Gorsaf newid | 18 |
| Rhan 2 | 20 |
| Rhan 3 | 22 |
| Rhan 4 | 26 |
| Rhan 5 | 30 |
| Yr ymgynghori hwn | 36 |
| Beth sy'n digwydd nesaf | 38 |
| Gosod llinellau uwchben | 40 |
| Gosod ceblau tanddaearol | 42 |
| Gweithio gyda thirfeddianwyr a meddianwyr | 45 |
| Buddsoddiad cymunedol | 46 |
| Cysylltwch | 48 |


# Cyflwyniad

Cysylltiad trydan newydd 132kV (132,000-folt) arfaethedig yw Green GEN Tywi Wysg, a fydd yn cludo ynni glân a gwyrdd o eneraduron adnewyddadwy yng Nghymru i'r rhwydwaith trawsyrru cenedlaethol.

Yn 2023, fe wnaethom ymgynghori â phobl leol ynghylch y llwybr rydym ni'n ei ffafrio ar gyfer y cysylltiad newydd. Ers hynny, rydym wedi ystyried yn ofalus yr holl adborth a gawsom, ochr yn ochr ag asesiadau amgylcheddol a thechnegol pellach, ac rydym wedi gwneud nifer o newidiadau i'n cynigion.

Rydym nawr yn cynnig y bydd y rhan fwyaf o Ran 1 y llwybr, o Barc Ynni arfaethedig Nant Mithil i Fryn Aberedw, yn llinell uwchben sy'n cael ei chynnal ar bolion pren yn hytrach na pheilonau dur. Rydym hefyd yn cynnig croesi Afon Tywi ger Llanarthne yn Rhan 5 y prosiect, gan ddefnyddio ceblau o dan y ddaear yn hytrach na llinellau uwchben, er mwyn lleihau'r posibilrwydd o achosi effaith andwyol i'r golygfeydd a'r dirwedd.

Rydym ni hefyd wedi gwneud rhai newidiadau i'r llwybr mewn mannau eraill, ac rydym ni nawr yn ymgynghori â phobl leol ynghylch aliniad y llwybr drafft, sy'n rhoi rhagor o fanylion ynghylch ble gallai'r seilwaith newydd arfaethedig fynd.

**Bydd ein hail rownd o ymgynghori yn cael ei chynnal rhwng dydd Mercher 13 Mawrth a dydd Mercher 8 Mai 2024**

Mae rhagor o wybodaeth am yr ymgynghoriad, aliniad y llwybr drafft, a'n cynigion diwygiedig yn y ddogfen hon ac ar ein gwefan **www.greengentowyusk.com**.



# Mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd

**Rydym ni eisiau gwneud yn siŵr bod gan Gymru yr ynni sydd ei angen arni mewn byd Sero Net.**


**Mae potensial di-ben-draw i ynni adnewyddadwy yng Nghymru – yn enwedig o'r gwynt sy'n chwythu ar draws ein bryniau a'n mynyddoedd. Ond mae angen i ni sicrhau bod yr ynni gwyrdd sy'n cael ei gynhyrchu yn cyrraedd y cartrefi, ysbytai, ysgolion, busnesau a chymunedau sydd ei angen yng ngweddill Cymru a thu hwnt.**

Adeiladwyd llawer o'r seilwaith trydan presennol yng Nghymru flynyddoedd lawer yn ôl i gludo trydan o hen orsafoedd pŵer tanwydd ffosil yn y gogledd a'r de. Nid oes gan y rhwydwaith presennol yng Nghanolbarth Cymru ddigon o gapasiti i gysylltu'r holl ynni adnewyddadwy newydd sydd ei angen arnom ar gyfer ein cartrefi a'n busnesau, yn lleol ac yn genedlaethol. Rydym ni angen seilwaith newydd ar frys er mwyn rhoi'r gorau i ddefnyddio tanwydd ffosil.


Er mwyn ymateb i'r her hon a tharged Llywodraeth Cymru i gwrdd â'r hyn sy'n cyfateb i 100% o anghenion trydan Cymru o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2035, rydym yn datblygu rhwydwaith trydan adnewyddadwy cryfach a mwy gwydn sydd ei angen yn fawr yng Nghymru – i ddosbarthu ynni glân a gwyrdd.

Rydym ni eisiau creu dyfodol cadarnhaol a glân i bawb. Rydym ni'n gweithredu nawr i adeiladu a gweithredu rhwydwaith ynni gwyrdd i Gymru, a fydd yn sicrhau bod ynni adnewyddadwy yn gallu cyrraedd ein cartrefi, ein hysbytai, ein hysgolion, ein busnesau a'n cymunedau.

Mae Green Generation Energy Networks Cymru (Green GEN Cymru) yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddarparu rhwydwaith dosbarthu dibynadwy a chadarn a fydd yn mynd i'r afael â'r argyfwng ynni a'r argyfwng hinsawdd. Bydd hefyd yn grymuso cymunedau gwledig drwy fuddsoddi, swyddi a sgiliau, gan alluogi cymunedau i fyw bywydau trydan modern.




**Cyflwyno cynhyrchiant adnewyddadwy, lleihau'r defnydd o danwydd ffosil**



**Isadeiledd grid newydd i gysylltu ynni adnewyddadwy â chartrefi a busnesau**



**Gweithredu'n gyflym a chyflawni prosiectau yn effeithlon**



# Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

**Mae Green GEN Cymru wedi'i leoli yng Nghymru ac mae'n datblygu rhwydweithiau ynni gwyrdd yng Nghymru i ddiwallu anghenion pobl, cymunedau a busnesau Cymru yn y dyfodol.**

Bydd Green GEN Cymru yn dylunio, yn adeiladu ac yn gweithredu rhwydwaith dosbarthu 132kV (132,000-folt) newydd sydd ei angen i gysylltu prosiectau ynni adnewyddadwy newydd yng Nghymru â'r rhwydwaith trawsyrru trydan, gan helpu i sicrhau ynni gwyrdd i gartrefi a busnesau ledled Cymru a thu hwnt.

Mae Green GEN Cymru wedi gwneud cais am drwydded Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu Annibynnol (IDNO) gan Ofgem. Mae angen trwydded IDNO i ganiatáu i Green GEN Cymru gludo ynni adnewyddadwy o ble mae'n cael ei gynhyrchu i'r cartrefi a'r busnesau lle bydd yn cael ei ddefnyddio. Mae Ofgem wedi cadarnhau bod y cais yn cael ei asesu ar hyn o bryd.

Mae IDNOau yn gwmnïau sy'n datblygu, yn perchenogi, yn gweithredu ac yn cynnal rhwydweithiau dosbarthu trydan lleol llai (hyd at 132kV) yn y rhwydwaith Gweithredwyr Rhwydwaith Dosbarthu (DNO) rhanbarthol. Yn Ne Cymru, y DNO yw National Grid Electricity Distribution (NGED), a Scottish Power Energy Networks (SPEN) sy'n gyfrifol am y rhwydwaith dosbarthu trydan ledled Gogledd Cymru.

Gall ein rhwydwaith grid gwyrdd ddarparu datrysiad rhwydwaith rhanbarthol ar gyfer De a Chanolbarth Cymru. Bydd generaduron ynni adnewyddadwy yn gallu gwneud cais i gysylltu ag ef, gan leihau'r angen am fwy o seilwaith yn y dyfodol. Mae ganddo hefyd y potensial i gefnogi technolegau fel 5G a allai helpu ffermwyr, ysgolion a busnesau i fod ar flaen y gad ym maes technoleg, er eu bod wedi'u lleoli mewn ardal wledig. Gallai'r cysylltiad arwain at botensial ar gyfer buddsoddiad busnes yn yr ardal a chefnogi creu swyddi a sgiliau, a'r newid o danwydd ffosil i ynni adnewyddadwy ar gyfer gwresogi cartrefi a cherbydau trydan.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda chymunedau a rhanddeiliaid yng Nghymru wrth i ni ddatblygu ein cynlluniau, er mwyn manteisio i'r eithaf ar y manteision a lleihau'r effeithiau i bobl leol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Green GEN Cymru **www.greengencymru.com**.



# Amdano Green GEN Tywi Wysg

**Bydd Green GEN Tywi Wysg yn cysylltu Parc Ynni Nant Mithil Bute Energy, a fydd yn cynhyrchu ynni gwyrdd a glân yn ardal Coedwig Maesyfed, â'r grid cenedlaethol.**

Yn bwysig, bydd prosiectau ynni gwyrdd eraill – gan gynnwys Parciau Ynni arfaethedig Bute Energy, Aberedw a Bryn Gilwern – hefyd yn gallu cysylltu â llinell arfaethedig Green GEN Tywi Wysg, gan leihau faint o seilwaith ychwanegol fydd ei angen yn y dyfodol. Rhagwelir y bydd y ddau barc ynni yn defnyddio llinellau uwchben cylched sengl sy'n cael eu cynnal ar bolion pren i gysylltu â Green GEN Tywi Wysg.

Gallai Green GEN Tywi Wysg hefyd hwyluso cysylltu prosiectau cymunedol yn uniongyrchol, gan leihau'r pwysau ar y grid trydan presennol, cefnogi cadernid ynni, busnesau gwyrdd a galluogi gwres gwyrdd a chyflwyno cerbydau trydan ledled Cymru – yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

Cynnig Green GEN Tywi Wysg yw cysylltiad 132kV newydd, tua 97 cilomedr o hyd rhwng is-orsaf ym Mharc Ynni Nant Mithil ac is-orsaf newydd, i'w datblygu gan y National Grid, ar y llinell trawsyrru 400kV (400,000-folt) bresennol ger Llandyfaelog, yn Sir Gaerfyrddin.

Ein cynnig gwreiddiol oedd llinell uwchben cylched dwbl, wedi'i chario ar beilonau dur, drwy gydol y llwybr. Yn dilyn adborth a gafwyd yn ein rownd gyntaf o ymgynghori yng ngwanwyn 2023, ynghyd ag asesiadau technegol ac amgylcheddol pellach, rydym wedi diwygio ein cynlluniau.

Yn dilyn ymgynghoriad ac asesiadau pellach, rydym wedi diwygio ein cynnig i gynnwys llinell uwchben cylched sengl, wedi'i chynnal ar bolion pren yn Rhan 1 y llwybr (o Barc Ynni Nant Mithil i orsaf newid newydd i'r de o'r A481 wrth droed Bryn Aberedw) a darn o gebl tanddaearol lle mae'r llwybr yn croesi Afon Tywi ger Llanarthne yn Rhan 5 y llwybr.

**Yn y ddogfen hon, mae rhagor o fanylion am ein cynigion ar gyfer pob rhan o'r llwybr.**

**I gael rhagor o wybodaeth am ein rownd gyntaf o ymgynghori, yr adborth a gawsom a sut rydym wedi ystyried hyn, edrychwch ar ein Rownd Ymgynghori Gyntaf: Crynodeb o'r Adroddiad Adborth.**



# Ynni adnewyddadwy newydd yng Nghymru

**Bydd ynni adnewyddadwy ar y tir yng Nghymru yn darparu mwy o ddiogelwch ynni, gan leihau'r ddibyniaeth ar danwydd ffosil sy'n cael ei fewnforio. Gwynt ar y tir yw'r dewis mwyaf cost-effeithiol ar gyfer trydan newydd yn y DU – sy'n rhatach ac yn gynt o ran cyflenwi na nwy, niwclear, glo ac ynni adnewyddadwy arall.**

**Gyda'i bencadlys yng Nghaerdydd, mae Bute Energy wedi ymrwymo i chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o adeiladu gwlad carbon isel a ffyniannus, gan ddarparu ynni glân a chefnogi cymunedau hyfyw, nawr ac yn y dyfodol.**

Bydd Green GEN Tywi Wysg yn cysylltu Parc Ynni arfaethedig Bute Energy, Nant Mithil, â'r System Drawsyrru Genedlaethol. Bydd Parciau Ynni arfaethedig Bute Energy, Aberedw a Bryn Gilwern, sydd ar gam datblygu cynharach, hefyd yn cysylltu â Green GEN Tywi Wysg, drwy'r un orsaf newid arfaethedig, gan leihau'r angen am gysylltiadau unigol o bob un o'r parciau ynni i'r System Drawsyrru Genedlaethol.

Gyda'i gilydd, gallai portffolio Bute Energy o ffermydd gwynt ar y tir, prosiectau solar ffotofoltaig a systemau storio ynni batri sydd wedi'u cydleoli fod â chapasiti wedi'i osod o fwy na 3GW erbyn 2030, gan wneud cyfraniad sylweddol tuag at gyrraedd targedau ynni adnewyddadwy Llywodraeth Cymru ac amcanion carbon sero net Llywodraeth y DU.

I gael rhagor o wybodaeth am y parciau y nni a gynigir gan Bute Energy, ewch i'r wefan: **www.bute.energy**.

**Llywodraeth Cymru, Ynni Adnewyddadwyyng Nghymru.**

"Ni all fod unrhyw gamargraff: heb fuddsoddiad angenrheidiol mewn seilwaith grid newydd, neu gynlluniau i uwchraddio'r seilwaith presennol yng Nghymru yn y tymor byr, ni fydd y datblygiad mewn ynni adnewyddadwy sydd ei angen i gyrraedd targedau 2030 a 2050 yn digwydd, heb sôn am darged newydd yn 2035.



hyd at **x70** o dyrbinau gwynt

digon i bweru'r hyn sy'n cyfateb i **375,700 mil** o gartrefi y flwyddyn*





hyd at **427mw** o drydan

potensial i ddadleoli **611,500 miliwn tunnell o $CO_2$** trwy hyd oes weithredol y prosiect

Cynhyrchu dangosol o'r parciau ynni arfaethedig; bydd yn dibynnu ar ddyluniad terfynol, dewis tyrbin a ffactor cynhwysedd  * Cymerwyd defnydd cyfartalog cartrefi yn y DU o RenewableUK **www.renewableuk.com/page/UKWEDExplained/Statistics-Explained.htm**



# YR ANGEN AM NEWID – CYFLAWNI DYFODOL CARBON ISEL



# Sut gwnaethom ni ddewis y llwybr a ffefrir ar gyfer Green GEN Tywi Wysg yn 2023

Wrth i ni ddatblygu ein prosiectau, rydym ni'n ystyried effeithiau gweledol y llinellau uwchben a sut gellir lliniaru'r rhain drwy lwybro gofalus; er enghraifft, ceisio osgoi trefi a phentrefi, ac ardaloedd sydd â dynodiadau amgylcheddol.

Rydym ni'n dilyn rheolau hirsefydledig Holford ar gyfer llwybro llinellau uwchben, ac mae'r prif egwyddorion yn cynnwys osgoi cribau a nenlinellau amlwg; dilyn dyffrynnoedd coediog eang; osgoi aneddiadau ac eiddo preswyl; a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i greu 'cefnlen' a sgrinio seilwaith.

Ochr yn ochr ag effeithiau ar y tirwedd, rydym hefyd yn ystyried cyfyngiadau ac effeithiau amgylcheddol a thechnegol eraill, gan gynnwys ecoleg ac adareg, hamdden a thwristiaeth, hydroleg, treftadaeth ddiwylliannol, coetir hynafol, coedwigaeth, ffermio a defnyddiau tir eraill.

Mae adborth gan randdeiliaid a chymunedau lleol hefyd yn bwysig wrth siapio ein cynigion, felly ym mhob cam datblygu rydym ni'n ymgynghori ar ein cynlluniau.

Cyn ein rownd gyntaf o ymgynghori'r llynedd, fe wnaethom ddechrau drwy gymharu goblygiadau amgylcheddol, technegol a chost 11 opsiwn cysylltu posibl (pwyntiau gwahanol ar y rhwydwaith trawsyrru trydan yng Nghymru a Lloegr). Mae canfyddiadau'r gwaith hwn yn cael eu cyflwyno yn ein dogfen **Strategaeth Cysylltiad Grid Cam 1 Green GEN**.

Yn dilyn y gwaith hwn, penderfynasom, ar y cyfan, mai cysylltu'r Parciau Ynni arfaethedig â'r grid cenedlaethol yn ardal Caerfyrddin oedd yr opsiwn mwyaf priodol i gydbwyso'r effeithiau ar gymunedau, yr amgylchedd, ystyriaethau technegol a chost. Datblygwyd y datrysiad hwn drwy gynnal ymgynghoriad ac astudiaethau llwybro manylach.




Gan weithio gyda'n hymgynghorwyr amgylcheddol, gwnaethom nodi coridorau o dir y gellid eu defnyddio i osod llwybr llinell uwchben rhwng Parc Ynni Nant Mithil a'r rhwydwaith grid cenedlaethol presennol ger Caerfyrddin, gan edrych ar sut y gallai pob un effeithio ar gymunedau lleol, y dirwedd, golygfeydd, bioamrywiaeth, daeareg, coedwigaeth, treftadaeth ddiwylliannol, perygl llifogydd a defnyddiau tir eraill.

O'r coridorau a nodwyd, fe wnaethom ddewis y coridor a fyddai, ar y cyfan, yn lleihau'r potensial ar gyfer effeithiau ar gymunedau a'r amgylchedd, cyn mynd ati i nodi opsiynau llwybro posibl oddi mewn iddo. Yn dilyn gwerthusiad amgylcheddol a thechnegol manylach, fe wnaethom ddewis y llwybr a ffefrir (ardal 200m o dir y gellid llwybro llinell uwchben o'i fewn o bosibl).

Roedd y llwybr a oedd yn cael ei ffafrio gennym yn osgoi Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, yn ceisio lleihau'r posibilrwydd o gael effaith andwyol ar y Parc Cenedlaethol a thirweddau sensitif eraill, ac yn ystyried sut gellid lleihau faint o seilwaith newydd sydd ei angen. Roeddem o'r farn bod y llwybr hwn yn sicrhau'r cydbwysedd gorau rhwng ein gofynion technegol a'r effeithiau posibl ar yr amgylchedd a'r bobl sy'n byw, yn gweithio ac yn mwynhau treulio eu hamser yn yr ardal. Dyma oedd testun ein rownd gyntaf o ymgynghori cyhoeddus, a gynhaliwyd yng ngwanwyn 2023.

## Yn ein gwaith rydym wedi ystyried



**Effeithiau gweledol**



**Effeithiau cymunedol**



**Yr amgylchedd a threftadaeth**



**Anghenion technegol**

### Mwy o wybodaeth

Mae rhagor o wybodaeth am sut y gwnaethom ni nodi'r llwybr rydym ni'n ei ffafrio, a'r opsiynau eraill roeddem ni wedi'u hystyried, ar gael yn ein **Dogfen Llwybro ac Ymgynghori** a'n dogfen **Strategaeth Cysylltu â'r Grid Cam 1 Green GEN**.

# Trosolwg o'r broses gynllunio ac ymgynghori

**Mae llinellau uwchben newydd hyd at 132kV, sy'n gysylltiedig â gorsafoedd cynhyrchu datganoledig, yn cael eu hystyried yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) yng Nghymru. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ddatblygwyr gyflwyno ceisiadau am ganiatâd i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW), gan gynnwys adroddiad ar sut rydym wedi ymgynghori â phobl ynghylch ein cynlluniau, a sut mae penderfyniadau terfynol yn cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru.**

Dull gweithredu Green GEN Cymru ar gyfer ymgysylltu â chysylltiad Tywi Wysg yw cynnal tair rownd o ymgynghori â chymunedau a rhanddeiliaid, gan fynd y tu hwnt i ganllawiau 'arferion da' PEDW i sicrhau bod pobl leol yn cael cyfle i roi sylwadau ar bob cam o ddatblygiad y prosiect.

Dyma'r tair rownd o ymgynghori cyn ymgeisio rydym yn eu cynnal:

- Rownd gyntaf o ymgynghori anstatudol ar y llwybr a ffefrir gennym, a gynhaliwyd rhwng 6 Mawrth a 28 Ebrill 2023;
- Ail rownd o ymgynghori anstatudol ar aliniad y llwybr drafft ar gyfer y prosiect, gan gynnwys lleoliadau peilonau a pholion pren arfaethedig, ceblau o dan y ddaear, gorsaf newid a safle'r is-orsaf, rhwng dydd Mercher 13 Mawrth a dydd Mercher 8 Mai 2024;
- Ymgynghoriad statudol ar y cais drafft i PEDW, sydd ar y gweill ar gyfer 2025.





# Rownd gyntaf yr ymgynghoriad

**Cynhaliwyd ein rownd gyntaf o ymgynghori rhwng 6 Mawrth 2023 a 28 Ebrill 2023.**

Fe wnaethom ofyn i bobl am eu barn ar y llwybr rydym ni'n ei ffafrio ar gyfer Green GEN Tywi Wysg, ac unrhyw beth yr hoffent i ni ei ystyried wrth ddatblygu ein cynigion, yn ogystal â chwestiynau ehangach am newid yn yr hinsawdd, ynni adnewyddadwy, a sut y gellid defnyddio Cronfa Buddsoddi Cymunedol Bute Energy i gefnogi cymunedau lleol.

Roedd pobl yn gallu rhoi sylwadau ar y llwybr a'r prosiect yn ei gyfanrwydd, ond roeddem hefyd wedi rhannu'r llwybr yn bum rhan i'w gwneud yn haws i bobl weld a rhoi sylwadau penodol ar yr ardal a oedd o'r diddordeb mwyaf iddynt.

Fe wnaethom gynnal pum arddangosfa gyhoeddus galw heibio ym Mhenybont, Llanfair-ym-Muallt, Llanymddyfri, Llandeilo a Llandyfaelog, lle gallai pobl weld cynlluniau manwl a gofyn cwestiynau i dîm y prosiect, ac roeddem hefyd wedi sicrhau bod mapiau, dogfennau a deunyddiau ar gael ar wefan y prosiect **www.greengentowyusk.com/cymraeg**.

Cawsom 2,949 o ymatebion i'r ymgynghoriad, ac fe wnaethom ystyried yn ofalus yr holl faterion a godwyd, ochr yn ochr ag asesiadau technegol ac amgylcheddol pellach. Mae rhagor o wybodaeth am ein rownd gyntaf o ymgynghori, yr adborth a gawsom a'n hymateb i'r materion a godwyd ar gael yn ein **Adroddiad Ymgynghori Anstatudol Cam 1**.

# Digwyddiadau Rownd 2 yn eich ardal

**Digwyddiadau**

**Gallwch ein helpu i ddeall unrhyw effeithiau a manteision posibl nad ydym efallai wedi'u hystyried yn ein gwaith hyd yma, a chyfrannu at ein gwaith wrth symud ymlaen, drwy ddarparu eich adborth yn ein hail rownd ymgynghori o ddydd Mercher 13 Mawrth tan ddydd Mercher 8 Mai 2024.**

**Dewch i gwrdd â'n tîm a gofyn cwestiynau i gael rhagor o wybodaeth am ein cynigion.**

**Gweler amserlen y digwyddiad ar dudalen 36.**



# Datblygu'r prosiect yn dilyn rownd gyntaf yr ymgynghoriad

**Yn dilyn rownd gyntaf yr ymgynghoriad, fe wnaethom ailedrych ar y llwybr a ffefrir gennym o safbwynt amgylcheddol, technegol ac economaidd i weld a allem wneud newidiadau ar sail yr adborth a gafwyd, ein hasesiadau pellach a'n hymweliadau safle ein hunain.**

Fe edrychom ar ble gallem wneud newidiadau i'r llwybr, ac roeddem hefyd wedi adolygu lle gallem newid y dechnoleg a'r seilwaith arfaethedig (er enghraifft, lle gallai fod yn fwy priodol defnyddio polion pren neu geblau o dan y ddaear yn hytrach na pheilonau dur). Yn dilyn y gwaith hwn, fe wnaethom nodi aliniad drafft y llwybr (gan gynnwys safleoedd posibl ar gyfer polion a pheilonau) wedi'i arwain gan y llwybr a ffefrir a adolygwyd.

Mae aliniad y llwybr drafft yn ystyried yr adborth a gawsom gan gymunedau a rhanddeiliaid, ac mae'n cynnwys ystyriaethau bioamrywiaeth, y dirwedd a'r golygfeydd, treftadaeth ddiwylliannol, coetiroedd, perygl llifogydd, daeareg a phriddoedd, defnyddiau tir eraill, ac anghenion technegol.

Gall manylion am sut mae'r llwybr wedi'i ddiweddaru i'w gweld yn adrannau manwl yr adroddiad hwn, ar dudalennau 16 i 34, ond yn gryno:

### Rhan 1
### Parc Ynni Nant Mithil i Fryn Aberedw:

Roedd asesiad pellach yn dangos bod modd cludo'r pŵer sy'n cael ei gynhyrchu o Barc Ynni arfaethedig Nant Mithil ar gylched 132kV sengl cyn belled â Bryn Aberedw (tua 11.3km), lle gall gorsaf newid ar droed y bryn ei throsglwyddo i gylched ddwbl peilonau dur. Gellir cynnal y cylched 132kV sengl rhwng Parc Ynni Nant Mithil a Bryn Aberedw ar bolion pren, sy'n golygu nad oes angen peilonau dur ar y rhan hon o'r llwybr.

Gall yr orsaf newid hefyd ddarparu ynni o Barciau Ynni arfaethedig Aberedw a Bryn Gilwern, sydd ar gam cynharach yn eu datblygiad. Byddai'r rhain hefyd yn gallu cysylltu â'r orsaf newid gan ddefnyddio cylchedau 132kV sengl, sy'n debygol o gael eu cynnal ar bolion pren.

Byddai lleoli'r orsaf newid ar droed Bryn Aberedw yn caniatáu i'r tri pharc ynni arfaethedig gysylltu ar yr un pwynt, gan leihau'r angen am seilwaith ychwanegol a fyddai wedi bod yn angenrheidiol pe baent yn cysylltu â'r rhwydwaith mewn gwahanol leoedd.

Mae'r llwybr arfaethedig wedi cael ei symud ymhellach i ffwrdd o Bontffranc nag a gynhigiwyd yn wreiddiol, i gynyddu'r pellter o'r pentref.

### Rhan 2
### Bryn Aberedw i Langamarch:

Newidiadau i'r llwybr arfaethedig i leihau'r effeithiau posibl ar goetir hynafol, eiddo preswyl, a chynefinoedd blaenoriaeth; ac effeithiau tirwedd a gweledol lle mae Afon Gwy yn cael ei chroesi.

### Rhan 3
### Llangamarch i Lanymddyfri:


Newidiadau i'r llwybr arfaethedig i leihau'r effeithiau gweledol yng Nghefn-gorwydd; a chyflwyno dau opsiwn llwybro posibl yn ardal Coedwig Crychan, gan roi'r potensial i leihau'r effeithiau posibl ar goetir masnachol.

### Rhan 4
### Llanymddyfri i Landeilo:

Drwy ddilyn llwybr i'r gogledd o Afon Tywi, rydym wedi gallu lleihau'r effeithiau posibl ar Ddyffryn Tywi a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, yn ogystal ag effeithiau gweledol yn Llanymddyfri a Felindre a'r cyffiniau, ac effeithiau gweledol a threftadaeth yn Llangadog.



# Cysylltiad Tywi Wysg - ein cynlluniau diwygiedig




### Rhan 5
### Llandeilo i Landyfaelog:

Defnyddio ceblau tanddaearol yn hytrach na llinell uwchben lle mae aliniad drafft y llwybr yn croesi Dyffryn Tywi. Ar ddiwedd Rhan 5, mae'r llwybr arfaethedig wedi cael ei symud ymhellach i'r dwyrain i osgoi'r llinell 132kV bresennol ac eiddo preswyl, ac i adlewyrchu'r lleoliad arfaethedig ar gyfer is-orsaf y National Grid.

Yn dilyn adborth a ddaeth i law yn ein rownd gyntaf o ymgynghori, roeddem hefyd wedi adolygu Strategaeth Cysylltu'r Grid i ystyried opsiwn ychwanegol yn Lloegr a gyflwynwyd.

Fe wnaethom ailedrych ar y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn Strategaeth Cysylltu'r Grid ac adolygu'r opsiwn ychwanegol, a'n casgliad yw mai'r opsiwn cysylltu mwyaf priodol o hyd yw is-orsaf newydd yn Sir Gaerfyrddin.

**Mae Strategaeth Cysylltu'r Grid wedi cael ei diweddaru i adlewyrchu'r gwaith hwn.**

**Gwyddom y gall seilwaith newydd amharu ar gymunedau. Rydym ni wedi ymrwymo i wneud popeth o fewn ein gallu i darfu cyn lleied â phosibl ar yr amgylchedd a'r rheini sy'n byw, yn gweithio ac yn mwynhau gweithgareddau hamdden yn agos at ein cynigion.**



# Esbonio aliniad y llwybr drafft

Er hwylustod, rydym wedi rhannu aliniad y llwybr drafft yr ydym yn ei ddatblygu yn bum rhan.

Mae'r tudalennau sy'n dilyn yn cynnwys rhagor o wybodaeth am bob un o'r rhannau hyn, a'r hyn sydd wedi dylanwadu ar ein penderfyniadau hyd yma.

| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|
| Parc Ynni Nant Mithil i Fryn Aberedw | Bryn Aberedw i Langamarch | Llangamarch i Lanymddyfri | Llanymddyfri i Landeilo | Llandeilo i Landyfaelog |

## Digwyddiadau yn eich ardal chi

Dewch i gwrdd â'n tîm a gofyn cwestiynau i gael rhagor o wybodaeth am ein cynigion. Gweler amserlen y digwyddiad ar dudalen **36**.


**Mae map rhyngweithiol sy'n dangos aliniad y llwybr drafft ar gael ar ein gwefan yn www.greengentowyusk.com/cymraeg.**

## Rhagor o wybodaeth

Mae rhagor o wybodaeth am ein rownd gyntaf o ymgynghori, yr adborth a gawsom a'n hymateb i'r materion a godwyd ar gael yn ein Crynodeb o'r **Adroddiad Ymgynghori Anstatudol Cam 1** ein gwefan www.greengentowyusk.com/cymraeg.



## Aliniad llwybr drafft Tywi Wysg



# RHAN 1:
## Parc Ynni Nant Mithil i Fryn Aberedw

**Mae aliniad y llwybr drafft yn dechrau ym Mharc Ynni arfaethedig Nant Mithil, rhwng Maesyfed a Llandrindod, mewn is-orsaf newydd yn ardal de-orllewin y Parc Ynni (bydd yr is-orsaf hon yn cael ei chynnwys yng nghais cynllunio'r Parc Ynni).**

Mae aliniad y llwybr drafft yn mynd i'r de-orllewin o'r parc ynni er mwyn pasio i'r de-ddwyrain o Bontffranc a Llansanffraid-yn-Elfael, i gyrraedd pwynt ger Llanfaredd, i'r dwyrain o Lanfair-ym-Muallt, dros bellter o tua 11.3km. Bydd yr adran hon yn dod i ben mewn gorsaf newid newydd arfaethedig ger yr A481, wrth droed Bryn Aberedw. Bydd yr orsaf newid yn casglu'r pŵer o'r Parciau Ynni arfaethedig yn yr ardal hon ac yn ei gysylltu â llwybr y peilonau. Mae defnyddio'r orsaf newid hon wedi hwyluso'r newid i bolion pren o Nant Mithil.

Bydd aliniad y llwybr drafft yn y rhan hon yn llinell uwchben cylched sengl 132kV sy'n cael ei chynnal ar bolion pren. Bydd tua 90 o gynalbrennau polyn-H, fel arfer 12.8 metr o uchder a 127 metr oddi wrth ei gilydd (bydd yr union uchderau a phellteroedd yn dibynnu ar amodau'r tir a'r tir sydd i'w groesi).

Rydym bellach yn gallu defnyddio polion pren yn hytrach na'r peilonau dur a gynlluniwyd yn wreiddiol ar gyfer y rhan hon yn dilyn astudiaethau technegol pellach a defnyddio gorsaf newid. Mae'r prif ystyriaethau a themâu a godwyd yn yr adborth ar gyfer y llwybr a ffefrir a dyluniad yr aliniad wedi cynnwys:

- effeithiau gweledol yn, a ger Pontffranc – mae aliniad drafft y llwybr wedi cael ei symud y tu allan i'r llwybr a oedd yn cael ei ffafrio'n flaenorol yn y lleoliad hwn er mwyn cynyddu'r pellter o'r pentref;
- effeithiau gweledol ar ddefnyddwyr cyfleusterau i dwristiaid, gan gynnwys Parc Carafanau Fforest Fields, lle mae aliniad y llwybr drafft wedi symud i'r gogledd o'r llwybr a oedd yn cael ei ffafrio'n flaenorol;
- osgoi Coetiroedd Hynafol (er enghraifft, ger Hundred House).
- cyfleoedd i leihau gweledd a datblygiad yn erbyn y nenlinell, e.e. sgrinio gan goed presennol;
- lleihau'r effeithiau ar faen hir Cwm Maerdy.


Rydym yn cydnabod bod lleoliadau sy'n dal yn sensitif yn y rhan hon. Ar ôl ail rownd yr ymgynghoriad, byddwn yn parhau i ystyried y rhain yn ofalus wrth i ni ddatblygu ein cynigion, er mwyn gweld a allwn leihau'r effeithiau posibl ymhellach. Mae'r lleoliadau hyn yn cynnwys:

- Effeithiau ar Gwm Maerdy, Castell Colwyn a rhes gerrig Bryntwppa;
- Croesi Afon Edw (bydd angen i'r dargludyddion fargodi'r afon lle byddant yn ei chroesi, ond nid yw hyn yn golygu y bydd unrhyw effeithiau ar y bywyd gwyllt y mae'r afon wedi'i dynodi ar ei gyfer).

### Rhagor o wybodaeth

Mae rhagor o wybodaeth am ein rownd gyntaf o ymgynghori, yr adborth a gawsom a'n hymateb i'r materion a godwyd ar gael yn ein **Adroddiad Ymgynghori Anstatudol Cam 1** ar ein gwefan.

**Rhan 1: Parc Ynni Nant Mithil i Fryn Aberedw**



# Gorsaf newid

**Bydd y llwybr polion pren yn dod i ben mewn gorsaf newid newydd arfaethedig ger yr A481, wrth droed Bryn Aberedw. Yn ogystal, yr orsaf newid fydd y man gorffen ar gyfer cysylltiadau tebyg o Barciau Ynni arfaethedig Aberedw a Bryn Gilwern. Mae hyn yn caniatáu i ni gysylltu tri Pharc Ynni arfaethedig mewn un lle, mewn lleoliad sydd, yn ein barn ni, yn cael llai o effaith ar yr amgylchedd a chymunedau lleol na safleoedd posibl eraill.**

O'r orsaf newid, bydd angen llinell uwchben cylched dwbl 132kV newydd sy'n cael ei chynnal ar beilonau dur i gludo'r ynni ymlaen i ymuno â rhwydwaith y grid cenedlaethol.

Bydd yr orsaf newid oddeutu 75m x 85m o faint, er mwyn darparu ar gyfer yr offer trydanol sydd ei angen. Bydd angen i'r safle fod yn fwy o faint na hyn gan y bydd hefyd angen ffyrdd mynediad, ffensys a mesurau amgylcheddol, gan gynnwys tirweddu a phlannu sgrinio, a bydd ei union ddimensiynau'n cael eu pennu wrth i ni ddatblygu ein cynlluniau manwl ymhellach.


Mae gan y safle arfaethedig fynediad da o brif ffordd yr A481, mae'n gymharol wastad, ac nid oes ganddo unrhyw ddynodiadau amgylcheddol. Mae'r lleoliad hefyd yn rhoi cyfle i sefydlu un pwynt cysylltu ar gyfer tri pharc ynni arfaethedig gwahanol, sy'n golygu y bydd angen llai o seilwaith (llai o bolion pren a dim gorsafoedd newid ychwanegol) i gysylltu pob un ohonynt â'r rhwydwaith ehangach.



*Is-orsaf bresennol Llanfair-ym-Muallt sy'n rhoi syniad o'r math o ddatblygiad bydd y gorsaf newid.*



**Orsaf newid: wrth droed Bryn Aberedw**



# RHAN 2:
## Bryn Aberedw i Langamarch

**O'r orsaf newid ger yr A481 wrth droed Bryn Aberedw, bydd y cysylltiad yn mynd i'r de-orllewin, ac i'r de o Lanfair-ym-Muallt, am oddeutu 19 cilomedr tuag at Langamarch.**

**Bydd y llwybr yn y rhan hon yn llinell uwchben cylched dwbl 132kV sy'n cael ei chynnal ar beilonau dur. Bydd tua 87 o beilonau, fel arfer 29.5 metr o uchder a 220 metr oddi wrth ei gilydd (bydd yr union uchderau a phellteroedd yn dibynnu ar amodau'r tir a'r tir sydd i'w groesi).**

Mae'r prif ystyriaethau ar gyfer dyluniad aliniad y llwybr drafft wedi cynnwys:


- Effeithiau gweledol ar drigolion o amgylch Tremaen – mae aliniad y llwybr drafft wedi cael ei symud i'r de o'r llwybr a oedd yn cael ei ffafrio'n flaenorol yn y lleoliad hwn er mwyn lleihau effaith weledol bosibl y peilonau, gyda'r bryn yn gweithredu fel cefnlen;
- Y dirwedd ac effeithiau gweledol ar fan croesi'r Afon Gwy – mae aliniad y llwybr drafft wedi cael ei symud i'r gogledd i alinio â'r seilwaith presennol;
- Rhyngweithiadau â Choetir Hynafol (er enghraifft rhwng Cilmeri a Garth) – mae aliniad y llwybr drafft wedi osgoi Coetiroedd Hynafol;
- Effeithiau gweledol ar ddefnyddwyr cyfleusterau twristiaeth – mae aliniad y llwybr drafft wedi cael ei symud mor bell i'r gorllewin â phosibl o ymyl Llanfair-ym-Muallt;
- Effeithiau posibl ar Dŷ Garth a'i barcdir cysylltiedig (gan ystyried ystyriaethau amgylcheddol a thechnegol eraill ger Tŷ Garth).

Rydym ni'n cydnabod bod Dyffryn Gwy a Llanfair-ym-Muallt yn dal yn lleoliadau sensitif, ac ar ôl ail rownd yr ymgynghoriad byddwn yn parhau i ystyried y rhain yn ofalus wrth i ni ddatblygu ein cynigion. Byddwn hefyd yn ystyried yn ofalus sut i groesi Afon Gwy, Afon Irfon a'u hisafonydd (bydd angen i'r dargludyddion fargodi'r afonydd lle maen nhw'n cael eu croesi, ond nid yw hyn yn golygu y bydd unrhyw effeithiau ar y bywyd gwyllt y mae'r afonydd hyn wedi'u dynodi ar eu cyfer).

### Rhagor o wybodaeth

Mae rhagor o wybodaeth am ein rownd gyntaf o ymgynghori, yr adborth a gawsom a'n hymateb i'r materion a godwyd ar gael yn ein **Adroddiad Ymgynghori Anstatudol Cam 1** ar ein gwefan.

### Rhan 2: Bryn Aberedw i Langamarch



# RHAN 3:
## Llangamarch i Lanymddyfri

**Mae aliniad y llwybr drafft yn yr adran hon yn rhedeg tua 18.5km tuag at Lanymddyfri, gyda llinell uwchben cylched dwbl 132kV yn cael ei chynnal ar beilonau dur. Bydd tua 78 neu 79 o beilonau, yn ddibynnol ar yr opsiwn sy'n cael ei ddatblygu, fel arfer 30 metr o uchder a 234 metr oddi wrth ei gilydd (bydd yr union uchderau a phellteroedd yn dibynnu ar amodau'r tir a'r tir sydd i'w groesi).**

Mae'r prif ystyriaethau ar gyfer dyluniad aliniad y llwybr drafft wedi cynnwys:

- Symud y llwybr ymhellach i ffwrdd i'r gogledd-orllewin o anheddiad Cefn-gorwydd, gan leihau'r effaith bosibl ar olygfeydd o eiddo preswyl;
- Effeithiau ar goetiroedd a choedwigaeth yng Nghoedwig Crychan;
- Effeithiau gweledol ar ddefnyddwyr Llwybr Rheilffordd Calon Cymru ac ymwelwyr â Choedwig Crychan.

Yn yr adran hon, rydym wedi nodi dau opsiwn ymarferol ar gyfer yr aliniad llwybr drafft; **Opsiwn A** trwy Goedwig Crychan, ac **Opsiwn B** i'r gogledd-orllewin o goedwig Crychan.

Rydym yn gofyn i bobl leol a rhanddeiliaid am eu hadborth ar y ddau opsiwn **A** a **B** i helpu i lywio ein penderfyniad ynghylch pa un I fwrw ymlaen ag ef. Mae mwy o gwybodaeth am y ddau opsiwn ar gael ar dudalen **24**.


- Yn y cam dylunio nesaf, byddwn yn rhoi ystyriaeth ofalus i faterion sy'n cynnwys:
- Croesi Afon Irfon a'i hisafonydd (bydd angen i'r dargludyddion fargodi'r afon lle byddant yn ei chroesi, ond nid yw hyn yn golygu y bydd unrhyw effeithiau ar y bywyd gwyllt y mae'r afon wedi'i dynodi ar ei gyfer);
- Effeithiau posibl ar Gaer Rufeinig Abererbwll a'r ffordd Rufeinig i'r gogledd. Bydd yr arolwg maes yn cyfrannu at hyn.

### Rhagor o wybodaeth

Mae rhagor o wybodaeth am ein rownd gyntaf o ymgynghori, yr adborth a gawsom a'n hymateb i'r materion a godwyd ar gael yn ein **Adroddiad Ymgynghori Anstatudol Cam 1** ar ein gwefan.



### Rhan 3: Llangamarch i Lanymddyfri



# RHAN 3:

# Llangamarch i Lanymddyfri

## Option A

Mae opsiwn A drwy Goedwig Crychan yn dilyn yn fras y llwybr a ffefrir a ddangosir yn yr ymgynghoriad yn 2023, a byddai'n mynd drwy oddeutu 5.2 km o goedwigaeth fasnachol.

Roedd yr adborth a gafwyd yn rownd gyntaf yr ymgynghoriad yn codi pryderon ynghylch yr effeithiau posibl ar goedwigaeth fasnachol. Ynghyd â diweddariad diweddar i Bennod 6 Polisi Cynllunio Cymru, mewn perthynas ag ystyried prosiectau a fyddai'n effeithio ar goetiroedd, roeddem yn teimlo y dylem ystyried opsiwn llwybr amgen yn yr ardal hon.

## Option B


Mae Opsiwn B i'r gogledd-orllewin o goedwig Crychan a byddai'n cael llai o effaith ar goedwigaeth a choetir masnachol, ond mae'n bosibl y bydd yn effeithio ar ardaloedd sydd â dynodiadau amgylcheddol.

Ar y sail hon, credwn fod yr opsiynau wedi'u pwysoli'n gyfartal ac rydym yn gofyn am farn pobl ar y ddau. Byddwn yn ystyried yr adborth a gafwyd yn ail rownd yr ymgynghoriad, ynghyd ag asesiadau amgylcheddol a thechnegol pellach, cyn penderfynu pa opsiwn i fwrw ymlaen ag ef. Rydym yn bwriadu cyflwyno un opsiwn yn ein rownd nesaf o ymgynghori statudol yn 2025.

## Rhagor o wybodaeth

Mae rhagor o wybodaeth am ein rownd gyntaf o ymgynghori, yr adborth a gawsom a'n hymateb i'r materion a godwyd ar gael yn ein **Adroddiad Ymgynghori Anstatudol Cam 1** ar ein gwefan.

Rhan 3: Llangamarch i Lanymddyfri



# RHAN 4:
## Cam 1: Llanymddyfri i Landeilo

**Mae aliniad y llwybr drafft yn y rhan hon yn rhedeg tua 21km tuag at Landeilo, gyda llinell uwchben cylched dwbl 132kV yn cael ei chynnal ar beilonau dur. Mae bellach yn dilyn llwybr ar ochr ogleddol Dyffryn Tywi. Bydd tua 91 o beilonau, fel arfer 30 metr o uchder a 236 metr oddi wrth ei gilydd (bydd yr union uchderau a phellteroedd yn dibynnu ar amodau'r tir a'r tir sydd i'w groesi).**

Roedd y llwybr a oedd yn cael ei ffafrio gennym yn flaenorol (4S) ar ochr ddeheuol Dyffryn Tywi, ond ar ôl ystyried yr adborth a gafwyd yn rownd gyntaf yr ymgynghoriad, ynghyd ag astudiaethau amgylcheddol a thechnegol pellach, rydym wedi datblygu aliniad drafft ar yr ochr ogleddol (y cyfeiriwyd ato'n flaenorol fel opsiwn 4N, a ddangoswyd fel opsiwn amgen yn rownd gyntaf yr ymgynghoriad).

Byddai'r llwybr a oedd yn cael ei ffafrio'n flaenorol yn cynnwys pasio i'r gorllewin o Lanymddyfri, yn agos at y clwb rygbi, y cwrs golff a'r maes carafanau, cyn croesi llawr Dyffryn Tywi i gyrraedd ochr ddeheuol y dyffryn. Roedd agosrwydd y llwybr i Lanymddyfri a chroesi'r dyffryn yn y lleoliad hwn yn bwyntiau allweddol a godwyd yn yr adborth i'r ymgynghoriad.

Byddai'r llwybr a oedd yn cael ei ffafrio'n flaenorol wedi cynnwys croesi Afon Tywi, sy'n destun nifer o ddynodiadau amgylcheddol, mewn dau fan ychwanegol. Er ei bod yn bosibl i linell uwchben groesi'r afon heb effeithiau uniongyrchol ar y dynodiadau, roeddem yn cytuno y byddai'n well osgoi'r croesfannau hyn os yn bosibl. Mae aliniad drafft y llwybr yn osgoi'r croesfannau hynny yn y rhan hon.

Drwy ymchwiliadau pellach, roeddem hefyd wedi cytuno y gallai'r llwybr a oedd yn cael ei ffafrio'n flaenorol effeithio ar olygfeydd o Felindre a Llangadog, a mannau agored o amgylch Afon Sawdde.


Ystyrir yr A4069, sy'n pasio trwy ac i'r de-ddwyrain o Langadog, yn llwybr allweddol i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (PCBB), ac mae'r darn o'r ffordd rhwng yr anheddiad a ffin PCBB yn borth i'r Parc Cenedlaethol. Gallai'r llwybr a oedd yn cael ei ffafrio'n flaenorol fod wedi amharu ar y golygfeydd tuag at PCBB yn y rhan hon o ddyffryn Afon Brân.

### Rhagor o wybodaeth

Mae rhagor o wybodaeth am ein rownd gyntaf o ymgynghori, yr adborth a gawsom a'n hymateb i'r materion a godwyd ar gael yn ein **Crynodeb o'r Adroddiad Adborth** ar ein gwefan.



**Rhan 4: Llanymddyfri i Landeilo, cam 1**



# SECTION 4:

## Cam 2: Llandovery to Llandeilo

Roedd archwiliad pellach o’r llwybr o fewn 4N yn awgrymu y gellid addasu’r llwybr i leihau’r awyrgeblau, gan leihau’r effeithiau ar Ddyffryn Tywi yn ei gyfanrwydd. Mae llwybr 4N wedi cael ei ddylunio i fod y tu allan i Ardal Tirwedd Arbennig Dyffryn Tywi a’r Dirwedd Hanesyddol Gofrestredig, cyn belled ag y bo modd.

Mae symud aliniad y llwybr drafft i ochr ogleddol Dyffryn Tywi yn mynd ag ef ymhellach oddi wrth ffin Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Llanymddyfri ei hun, ac yn osgoi aneddiadau Felindre a Llangadog yn gyfan gwbl. Mae llwybr 4N hefyd yn cynnig y potensial ar gyfer llwybr byrrach, sythach a mwy uniongyrchol.

Rydym yn cydnabod y gallai aliniad y llwybr drafft newydd hwn arwain at effeithiau ar ardaloedd o ddiddordeb a lleoliadau yng ngogledd Dyffryn Tywi yn rhan 4. Rydym yn croesawu adborth a ein cynigion i helpu i lywio ein gwaith dylunio ac Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol.


Yn y cam dylunio nesaf, byddwn yn ystyried yn ofalus yr effeithiau posibl ar nodweddion treftadaeth, gan gynnwys adeilad rhestredig a Pharc a Gardd Hanesyddol Cofrestredig Taliaris, a Gwersyll Cwmbran.

### Rhagor o wybodaeth

Mae rhagor o wybodaeth am ein rownd gyntaf o ymgynghori, yr adborth a gawsom a’n hymateb i’r materion a godwyd ar gael yn ein Adroddiad Ymgynghori Anstatudol Cam 1 ar ein gwefan.



**Rhan 4: Llanymddyfri i Landeilo, cam 2**



# RHAN 5:

## Cam 1: Llandeilo i Landyfaelog

**Mae aliniad y llwybr drafft yn yr rhan hon yn parhau am oddeutu 28 cilomedr. Bydd tua 99 o beilonau yn y rhan hon, fel arfer 29 metr o uchder a 223 metr oddi wrth ei gilydd (bydd yr union uchderau a phellteroedd yn dibynnu ar amodau'r tir a'r tir sydd i'w groesi).**

Yn dilyn adborth a gafwyd yn rownd gyntaf yr ymgynghoriad, a'n hastudiaethau technegol ac amgylcheddol pellach ein hunain, rydym nawr yn cynnig defnyddio ceblau o dan y ddaear yn hytrach na llinellau uwchben lle mae aliniad drafft y llwybr yn croesi Afon Tywi (tua 5.5km o hyd).

Wrth ddod i'r penderfyniad hwn, roeddem wedi ystyried sut gallai llinell uwchben gael effaith sylweddol ar yr ardal y diwydd arbennig, a'r golygfeydd ohoni, yn enwedig o amgylch Tŵr Paxton a Chastell Dryslwyn.

Yn ogystal, dangosodd ein hastudiaethau y gallai llinell uwchben achosi risg o wrthdaro i adar sy'n bridio a gaeafu ar SoDdGA Afon Tywi a gorlifdir ehangach Afon Tywi, gan gynnwys gwyddau, elyrch, hwyaid, gwylanod ac adar hirgoes.


### Ceblau tanddaearol

Byddai defnyddio ceblau tanddaearol i groesi'r ardal arbennig o sensitif hon yn lleihau'r posibilrwydd o effeithiau ar y golygfeydd, y dirwedd a'r bywyd gwyllt. Byddai'r ceblau tanddaearol yn mynd o dan brif ffordd yr A40 ac Afon Tywi ar bwynt lle maent yn agos at ei gilydd, gan ganiatáu i ni darfu cyn lleied â phosibl ar y ffordd a'r afon a chwblhau'r llwybr yn y ffordd fwyaf effeithlon.

### Rhagor o wybodaeth

Mae rhagor o wybodaeth am ein rownd gyntaf o ymgynghori, yr adborth a gawsom a'n hymateb i'r materion a godwyd ar gael yn ein **Adroddiad Ymgynghori Anstatudol Cam 1** ar ein gwefan.

**Rhan 5: Llandeilo i Landyfaelog, cam 1**



# RHAN 5:
## Cam 2: Llandeilo i Landyfaelog

### Underground cables

Gallai fod angen hyd at 18 o geblau tanddaearol, wedi'u gosod ochr yn ochr â'i gilydd. Y rheswm am hyn yw y bydd yn rhaid i'r llinell uwchben cylched dwbl gyfateb i nerth y dargludyddion ar y llinell uwchben. Pan fydd llinell uwchben yn newid i gebl o dan y ddaear, mae'n debygol y bydd angen compownd pennau selio ceblau.

Mae ceblau tanddaearol yn fwy o ran diamedr na dargludyddion llinellau uwchben oherwydd bod angen eu gwarchod a'u hinswleiddio ymhellach.

Mae gwahanol ffyrdd o osod ceblau o dan y ddaear, gan gynnwys ffosydd agored, ac aredig ceblau (lle defnyddir peiriannau arbenigol i aredig ffos o'r dyfnder gofynnol).

Ar ôl y gwaith adeiladu, bydd y tir yn cael ei adfer i'w ddefnydd blaenorol a bydd y gwrychoedd yn cael eu hailblannu. Efallai y bydd rhai cyfyngiadau o ran plannu coed i sicrhau bod y ceblau'n gweithredu'n ddiogel.


Rydym yn cydnabod na fyddai'n briodol torri ffos ar draws yr afon ac, ar hyn o bryd, rydym yn gwerthuso'r technegau gorau i'w defnyddio ar gyfer gosod ceblau o dan y ddaear yn y rhan hon, er enghraifft Drilio Cyfeiriadol Llorweddol (math o dwnelu lle mae dril dan arweiniad cyfrifiadur yn creu llwybr cebl o dan yr afon). Bydd rhagor o fanylion ar gael yn ein hymgynghoriad nesaf.

### Rhagor o wybodaeth

Mae rhagor o wybodaeth am ein rownd gyntaf o ymgynghori, yr adborth a gawsom a'n hymateb i'r materion a godwyd ar gael yn ein **Adroddiad Ymgynghori Anstatudol Cam 1** ar ein gwefan.



**Rhan 5: Llandeilo i Landyfaelog, cam 2**



# RHAN 5:

## Cam 3: Llandeilo i Landyfaelog

Rhoddir ystyriaeth ofalus yn ystod y cam dylunio i lannau afon a gwelyau graean a ddefnyddir gan rywogaethau adar bridio sensitif yn SoDdGA Afon Tywi, gan gynnwys cwtiad torchog bach, pibydd y dorlan, glas y dorlan a gwennol y mor.

Mae rhagor o wybodaeth am adeiladwaith ceblau tanddaearol a llinellau uwchben yn nes ymlaen yn y ar dudalennau **40** i **44** ar y ddogfen hon.

Bydd National Grid Electricity Transmission (NGET) yn berchen ac yn ei weithredu yr is-orsaf 400kV arfaethedig yn y lleoliad hwn.

Mae angen yr is-orsaf newydd i fodloni galw cynyddol am drydan a dwy orsaf gynhyrchu ceisiadau cysylltiad yn yr ardal National Grid Electricity Distribution (NGED) a Green GEN Cymru.


Nid yw'r union leoliad wedi'i gadarnhau ar is-orsaf gyfer 132kV Green Gen Cymru eto er rhagwelir y bydd hwn yn cael ei leoli gerllaw'r is-orsaf 400kv arfaethedig. Bydd cynlluniau ar gyfer y is-orsaf Green GEN Cymru yn cael ei chynnwys yn y cais DNS ar gyfer ein prosiect cysylltiad grid Tywi Wysg.

### Rhagor o wybodaeth

Mae rhagor o wybodaeth am ein rownd gyntaf o ymgynghori, yr adborth a gawsom a'n hymateb i'r materion a godwyd ar gael yn ein **Adroddiad Ymgynghori Anstatudol Cam 1** ar ein gwefan.



**Rhan 5: Llandeilo i Landyfaelog, cam 3**



# Yr hyn rydym yn ymgynghori yn ei gylch ar hyn o bryd

**Bydd yr ail rownd o ymgynghori yn cael ei chynnal rhwng dydd Mercher 13 Mawrth a dydd Mercher 8 Mai 2024.**

**Rydym yn gofyn am eich adborth ar y canlynol:**

- Unrhyw ffactorau rydych chi'n meddwl y dylem eu hystyried wrth ddatblygu ein cynigion ar gyfer aliniad y llwybr, gan gynnwys lleoliadau arfaethedig peilonau, polion pren, ceblau o dan y ddaear, gorsaf newid a safle'r is-orsaf;
- Eich barn ynghylch a ddylem ddewis Opsiwn A neu Opsiwn B ar gyfer aliniad y llwybr drafft yn ardal Coedwig Crychan (adran 3);
- Unrhyw ffactorau nad ydych chi'n teimlo eu bod wedi cael eu hystyried yn ein gwaith hyd yma a fydd yn ein helpu i nodi unrhyw broblemau posibl a chwblhau ein cynlluniau manwl cyn i ni baratoi ein ceisiadau am gydsyniad.

Hoffem wybod hefyd a oes gennych chi syniadau am ardaloedd yn eich cymuned a allai elwa o fuddsoddiad drwy gronfa buddsoddi cymunedol Bute Energy. Mae rhagor o fanylion ar dudalen **46**.

**Rhagor o wybodaeth yn ein digwyddiadau cymunedol**
Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y prosiect a chwrdd â'r tîm yn ein digwyddiadau ymgynghori, lle byddwch hefyd yn gallu gweld delweddau cyfrifiadurol o aliniad drafft y llwybr.

## Amserlen digwyddiadau

| Lleoliad | Dyddiad ac amser |
|---|---|
| **Pafiliwn Trefaldwyn**<br>Maes Sioe Frenhinol Cymru, Llanfair-ym-Muallt LD2 3SY | Dydd Mercher 20 Mawrth, 2pm-7pm |
| **Neuadd Gymunedol Llanarthne**<br>Llanarthne, Caerfyrddin SA32 8JD | Dydd Iau, 21 Mawrth, 3.30pm-7.30pm |
| **Neuadd Ddinesig Llandeilo Fawr**<br>17 Crescent Rd, Llandeilo SA19 6HW | Dydd Sadwrn, 23 Mawrth, 11am-4pm |
| **Canolfan Gymunedol Penybont**<br>Penybont, ger Llandrindod LD1 5UA | Dydd Mawrth 9 Ebrill, 2pm-7pm |
| **Clwb Rygbi Llanymddyfri**<br>Banc yr Eglwys, Llanymddyfri SA20 0BA | Dydd Mercher 10 Ebrill, 2pm-7pm |
| **Neuadd Gymunedol Llandyfaelog**<br>Sir Gaerfyrddin SA17 5PA | Dydd Iau 11 Ebrill, 2pm-7pm |



**Lleisiwch eich barn, hyd yn oed os ydych chi eisoes wedi gwneud sylwadau yn ystod rownd gyntaf yr ymgynghoriad yn 2023.**

### Sut mae cyflwyno eich adborth

Mae rhagor o wybodaeth am yr ymgynghoriad, gan gynnwys ffyrdd o roi eich adborth, ar gael ar ein gwefan:

- gwefan: www.greengentowyusk.com/cymraeg
- anfon neges e-bost at: info@greengentowyusk.com
- anfon adborth ysgrifenedig atom: **FREEPOST GREEN GEN TOWY USK**

**Cyflwynwch eich adborth erbyn 23:59 ar ddydd Mercher 8 Mai 2024.** Mae'n bosibl na fydd unrhyw adborth a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn yn cael ei ystyried gan ein tîm.

Bydd yr holl adborth a gawn yn cael ei adolygu a'i ystyried yn ofalus wrth i ni ddatblygu ein cynlluniau.




# Beth sy'n digwydd nesaf?

**Mae llinellau uwchben newydd 132kV, sy'n gysylltiedig â gorsafoedd cynhyrchu datganoledig, yn cael eu hystyried yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) yng Nghymru. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ddatblygwyr gyflwyno ceisiadau am ganiatâd cynllunio i'r asiantaeth Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW), ac yna gwneir y penderfyniadau terfynol gan Weinidogion Cymru.**

Bydd adborth o'n hymgynghoriad cyhoeddus, a gan awdurdodau lleol, cynghorau cymuned a sefydliadau cenedlaethol yn ein helpu i ddatblygu dyluniad terfynol y prosiect. Byddwn hefyd yn cynnal rhagor o asesiadau technegol ac arolygon i lywio ein Hasesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA). Bydd yr EIA wedyn yn ffurfio rhan o'r Datganiad Amgylcheddol, sy'n nodi effeithiau posibl y prosiect ac unrhyw fesurau lliniaru arfaethedig.

Cyn i ni gyflwyno cais am ganiatâd i Weinidogion Cymru, bydd cyfnod Ymgynghori Cyn Ymgeisio (PAC) statudol, lle bydd pobl yn gallu adolygu a rhoi sylwadau ar y dyluniadau manwl a'r Datganiad Amgylcheddol drafft.



## Amserlen y prosiect

**2023**
**Gwanwyn**
Ymgynghoriad cyhoeddus cyntaf

**2024**
**Gwanwyn**
Ail ymgynghoriad cyhoeddus

**2025**
Trydydd ymgynghoriad cyhoeddus (statudol)

**2025**
Cyflwyno cais i PEDW i'w dderbyn a'i archwilio

**2026**
Penderfyniad cais

**2026**
Dechrau adeiladu os caniateir y prosiect

**2028**
Llif ynni glân, gwyrdd yng Nghymru

# Sut mae llinellau uwchben a cheblau o dan y ddaear yn cael eu gosod

**Bydd Green GEN Cymru yn dilyn gweithdrefnau sefydledig ar gyfer gosod llinellau uwchben yn ddiogel, gan weithio'n ofalus i darfu cyn lleied â phosibl ar bobl leol lle bynnag y bo hynny'n bosibl.**


## Adeiladu llinellau uwchben

**Gosod y safle a chompowndiau adeiladu dros dro**
Bydd angen i ni greu compowndiau adeiladu dros dro ar hyd y llwybr, at ddiben danfoniadau, storio deunyddiau, gofod swyddfa, cyfleusterau lles a pharcio cerbydau. Bydd y compowndiau mewn safleoedd strategol, yn ddelfrydol ger ffyrdd mawr er mwyn amharu cyn lleied â phosibl ar gymunedau lleol. Byddant yn cael eu symud ar ôl y gwaith adeiladu a bydd y tir yn cael ei ddychwelyd i'w gyflwr gwreiddiol.

Mae'r gwaith o adeiladu'r llinell uwchben yn dechrau drwy greu trac mynediad dros dro i safle'r peilon, ffensio man gweithio diogel, clirio llystyfiant a gwneud unrhyw waith draenio angenrheidiol.

**Sylfeini peilonau**
Mae'r peiriannau cloddio wedyn yn palu twll sylfaen ar gyfer pob coes o'r peilon. Mae coesau'r peilon yn cael eu gosod yn eu lle, mae'r sylfaen yn cael ei goncritio ac yna'n cael ei ôl-lenwi â phridd yn barod i'w ail-hau.

**Adeiladu peilonau**
Mae peilonau'n cael eu danfon i'r safle mewn darnau ar loriau. Mae rhannau'r peilon yn cael eu cydosod ar y ddaear ac yna'n cael eu codi yn eu lle gan ddefnyddio craen symudol.





**Gosod y gwifrau**
Ar ôl i'r peilonau gael eu cydosod, byddwn yn hongian y gwifrau (dargludyddion) sy'n cludo'r trydan – proses o'r enw 'stringing'.

Rydym yn hongian gwifrau ar ran o beilonau ar y tro. Bydd angen i ni godi sgaffaldau a rhwydi lle mae'r llwybr yn croesi ardaloedd fel ffyrdd, afonydd a rheilffyrdd, yn ystod y broses hongian. Efallai y bydd angen i ni gau rhai ffyrdd am gyfnodau byr, neu ddefnyddio goleuadau traffig neu fyrddau 'Stop / Go' yn ystod y gwaith hwn. Mae blociau rhedeg wedyn yn cael eu gosod ar yr ynysyddion ac mae'r dargludyddion yn cael eu tynnu drwodd gan beiriant winsh.

Bydd 'ardal dynnu' dros dro ar hyd y llwybr. Bydd y datrysiad mwyaf priodol ar gyfer pob lleoliad yn cael ei bennu wrth i'r prosiect ddatblygu ymhellach.

**Llinellau polion pren**
Mae'r gwaith o adeiladu llinellau polion pren yn dilyn proses debyg i adeiladu peilonau delltwaith, ond mae'r cloddiadau sylfaen yn llai, ac yn aml gellir rhoi'r polion yn eu lle gan ddefnyddio lori craen yn hytrach na chraen symudol mwy.



# Sut mae ceblau tanddaearol yn cael eu gosod

**Gosod ceblau o dan y ddaear**
Gellir gosod ceblau o dan y ddaear gan ddefnyddio technegau lluosog, fel arfer cloddio, neu aredig ffosydd lle gellir gosod y ceblau.


Cyn i'r gwaith ddechrau, mae 'lled gweithio' yr ardal yn cael ei ffensio i ddiogelu'r safle a diogelu da byw. Mae ffordd gludo dros dro yn cael ei chreu ar gyfer cerbydau adeiladu, llystyfiant yn cael ei dynnu, uwchbridd yn cael ei gloddio a'i storio i'w ailddefnyddio ar ôl y gwaith adeiladu, a bydd mesurau draenio a mesurau diogelu amgylcheddol dros dro yn cael eu rhoi ar waith.

Gall y ffosydd amrywio o ran lled yn dibynnu ar amodau'r tir, nifer y ceblau sydd i'w gosod a'u foltedd, sy'n pennu pa mor bell ar wahân y mae'n rhaid gosod y ceblau. Mae ceblau o dan y ddaear yn fwy trwchus na dargludyddion uwchben oherwydd bod angen eu hinswleiddio a'u gwarchod. Gall ffos ar gyfer llinell drydan cylched dwbl o 12-18 o geblau fod yn debyg o ran lled i ffordd.

Mae ceblau'n cael eu danfon i'r safle ar ddrymiau ac yna'n cael eu winsio i'w lle. Mae angen baeau uno (siambrau concrit tanddaearol fel arfer) a blychau cyswllt ar bob pwynt lle mae angen uno ceblau.

Ar ôl gorffen gosod y ceblau, bydd y ffosydd yn cael eu hôl-lenwi (gan ddefnyddio'r uwchbridd gwreiddiol lle bynnag y bo modd), bydd yr holl ffyrdd cludo dros dro, arwynebau a ffensys yn cael eu tynnu, a bydd y tir yn cael ei adfer i'w gyflwr gwreiddiol.





**Technegau di-ffos**
Mewn rhai sefyllfaoedd, fel wrth groesi traffyrdd neu brif ffyrdd, afonydd neu reilffyrdd, nid yw'n briodol cloddio ffosydd ar gyfer ceblau o dan y ddaear. Yn y sefyllfaoedd hyn, gellir gosod ceblau mewn twneli, pibellau neu drwy ddefnyddio technegau Drilio Cyfeiriadol Llorweddol (HDD).

Mae Green GEN Cymru yn bwriadu defnyddio technoleg ddi-ffos i osod ceblau o dan y ddaear lle mae aliniad drafft y llwybr yn cynnig croesi'r A40 ac Afon Tywi, gan basio'n ddiogel o dan y ffordd a'r afon a lleihau'r aflonyddwch i'r amgylchedd. Byddwn yn datblygu dyluniad manwl ar gyfer y groesfan hon wrth i ni gwblhau ein cynlluniau yn derfynol ar ôl yr ail rownd o ymgynghori.

**Aredig cebl**
Efallai y bydd modd defnyddio techneg aredig ceblau ar gyfer gwaith adeiladu o dan y ddaear ac mae Green GEN yn siarad â chontractwyr i ddeall hyfywedd, effeithiau a chostau'r dull hwn.


Image source: www.atpcableplough.com


Image source: www.atpcableplough.com

**Pennau selio ceblau**
Mae angen pennau selio ceblau lle bynnag y bydd ceblau o dan y ddaear yn cael eu cysylltu â llinellau uwchben er mwyn gallu trosglwyddo ynni'n ddiogel o un i'r llall. Mae'r rhain fel arfer ar ffurf platfform neu gompownd terfyn selio ceblau i ddarparu ar gyfer yr offer sydd ei angen.

Mae prosiect Green GEN Tywi Wysg yn debygol o fod angen compownd selio ar bob pen i'r adran ceblau tanddaearol.



An example of a cable sealing end

**Adfer**
Ar ôl adeiladu'r llinell uwchben, bydd yr holl draciau mynediad a mannau gweithio dros dro yn cael eu tynnu a bydd y tir yn cael ei adfer i'w gyflwr gwreiddiol.





# Gweithio gyda thirfeddianwyr a meddianwyr

**Mae Green GEN Cymru wedi ymrwymo i feithrin perthnasoedd gwaith cryf gyda thirfeddianwyr a meddianwyr wrth i ni ddatblygu ein cynigion ar gyfer Green GEN Tywi Wysg. Byddwn yn gweithio gyda chi wrth i ni ddatblygu ein cynlluniau, ac rydym ni'n eich annog chi a/neu eich cynrychiolwyr i gysylltu â ni os oes gennych chi unrhyw gwestiynau.**

Wrth gynllunio a datblygu ein prosiectau, mae angen i ni gynnal arolygon er mwyn helpu i lywio dyluniad y cynllun, yn ogystal â'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol.

Mae angen i ni arolygu ardal eang er mwyn sicrhau ein bod yn deall yr amgylchedd lleol, sut gallai ein gwaith effeithio arno ac ystyried unrhyw fesurau lliniaru sy'n ofynnol. Bydd canlyniadau'r arolygon yn helpu i lywio penderfyniadau ar lwybro a lleoliad prosiect Green GEN Tywi Wysg. Mae angen cynnal rhai arolygon, fel arolygon adar neu ystlumod, ar adegau penodol o'r flwyddyn i ddarparu gwybodaeth am nythu neu ddefnyddio cynefinoedd.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda thirfeddianwyr a meddianwyr er mwyn cytuno ar fynediad fel bod arolygon yn cael eu cynnal - lle bynnag y bo modd - ar adegau priodol gyda chyn lleied â phosibl o anghyfleustra.

Nid yw caniatáu mynediad Green GEN Cymru i dir ar gyfer arolygon yn atal tirfeddianwyr rhag cymryd rhan yn yr ymgynghoriad a rhoi sylwadau am brosiect Green GEN Tywi Wysg ar unrhyw adeg.

Bydd Bruton Knowles, ein hasiant tir, yn parhau i geisio cael cytundebau gwirfoddol gyda thirfeddianwyr a meddianwyr at ddiben mynediad, ond os na ellir gwneud hynny efallai y bydd angen i ni geisio cael pwerau cyfreithiol perthnasol.



# Buddsoddi yn y Gymuned

**Mae Bute Energy wedi ymrwymo i dalu £7,500 am bob megawat a osodir ar yr holl barciau ynni y mae'n eu datblygu drwy Gronfa Buddsoddi Cymunedol sy'n cael ei llywodraethu'n annibynnol. Bydd y gronfa o fudd nid yn unig i bobl leol sy'n byw yn agos at y safleoedd parc ynni, ond i bobl ar hyd llwybr cysylltiadau'r grid hefyd.**

Bydd Green GEN Tywi Wysg yn cysylltu Parciau Ynni Nant Mithil, Aberedw a Bryn Gilwern â'r grid cenedlaethol. Os caiff y parciau ynni arfaethedig hyn eu cymeradwyo, bydd cymunedau ar hyd cysylltiad arfaethedig Tywi Wysg yn gymwys i wneud cais i Gronfa Buddsoddi Ynni Bute sydd â gwerth rhagamcanol o tua 2.5 miliwn y flwyddyn.

Er mwyn sicrhau bod y gronfa hon yn cael yr effaith fwyaf ac yn galluogi prosiectau gwaddol aml-flwyddyn ar raddfa fawr, mae Bute Energy wedi sefydlu Tîm Buddsoddi Cymunedol sy'n gyfrifol yn unig am ymgysylltu a gweithio gydag unigolion, elusennau a grwpiau yn yr ardaloedd cyfagos at ei safleoedd. Mae'r tîm yn cynnwys staff sy'n canolbwyntio ar themâu amrywiol, gan gynnwys Hamdden ac Iechyd, yr Amgylchedd Naturiol a Threftadaeth Ddiwylliannol, Addysg, Symudedd Cymdeithasol a Hyfforddiant, mynd i'r afael â'r argyfwng Costau Byw a Mapio Cymdeithasol.

### Mwy o wybodaeth

Mae rhagor o wybodaeth am sut y gwnaethom ni nodi'r llwybr rydym ni'n ei ffafrio, a'r opsiynau eraill roeddem ni wedi'u hystyried, ar gael yn ein **Strategaeth Cysylltiad Grid Cam 1 Green GEN** a'n dogfen **www.greengentowyusk.com/cymraeg**.

Gan gydnabod bod pob cymuned yn unigryw, mae'r Tîm Buddsoddi Cymunedol yn siarad â thrigolion ac yn defnyddio data ac ymchwil barhaus i fapio anghenion cymunedau yn fanwl, gan nodi'r heriau mwyaf i dargedu a blaenoriaethu'r ymgysylltu a allai arwain at y manteision mwyaf effeithiol.

Drwy adborth o'r rownd gyntaf o ymgynghori, ymgysylltu â phobl leol ac ymchwil gymdeithasol helaeth, y 5 prif her sy'n seiliedig ar leoedd a nodwyd ar hyd llwybr Tywi Wysg yw:

1. Bywyd a Chydnerthedd Cymunedol
2. Amaethyddiaeth
3. Mynediad at seilwaith trafnidiaeth a thrafnidiaeth
4. Cefnogi busnesau, microfusnesau a sefydliadau lleol
5. Unigedd ac arwahanu

Mae Tîm Buddsoddi Cymunedol Bute Energy wedi ymrwymo i sicrhau bod cymunedau'n cael eu paratoi o'r diwrnod cyntaf i ddefnyddio'r gronfa a fydd yn weithredol ar ôl cwblhau'r Parciau Ynni a ddisgwylir yn 2028. Maent eisoes yn cwrdd, yn cydweithio ac yn gweithio gydag ystod eang o grwpiau a rhanddeiliaid, o ysgolion, timau chwaraeon a grwpiau trafnidiaeth lleol i sefydliadau cenedlaethol sy'n ymwneud ag iechyd, diwylliant, yr amgylchedd a materion gwledig.



**Mae'r Tîm Buddsoddi Cymunedol yn croesawu ymgysylltiad gan grwpiau a sefydliadau ar hyd a lled llwybr cysylltu Tywi Wysg.**

Ydych chi'n gwybod am unrhyw grwpiau, sefydliadau neu fentrau lle gall Bute Energy gynnig rhywfaint o gymorth? Os oes gennych chi unrhyw syniadau am sut a ble hoffech chi weld yr arian yn cael ei fuddsoddi a'i ddefnyddio ar ôl i'r Parciau Ynni ddod i rym, hoffem glywed eich barn.

**Manteision ehangach**

Yn ogystal â Chronfa Buddsoddi Cymunedol benodol, mae Bute Energy a Green GEN Cymru wedi ymrwymo i fanteisio i'r eithaf ar werth cymdeithasol eu cynigion, drwy sicrhau bod unrhyw bartneriaid dan gontract yn canolbwyntio ar fuddsoddi swyddi, amser, adnoddau ac arian yn y cymunedau sy'n agos at ein prosiectau. Mae hyn yn cynnwys annog recriwtio staff yng Nghymru, gwirfoddoli lleol a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd cadwyn gyflenwi yn yr ardaloedd lle rydym yn gweithio.





GREEN
GEN
CYMRU

Gwefan
**www.greengentowyusk.com/cymraeg**

Anfonwch neges e-bost atom ni yn
**info@greengentowyusk.com**

Gallwch ein ffonio am ddim ar
**0800 3777 339**

Gallwch ysgrifennu atom yn rhad ac am ddim yn
**FREEPOST GREEN GEN TOWY USK**